

COFNODION

CYFARFOD: GWEITHGOR NEWID HINSAWDD AC ARGYFWNG ECOLEGOL

Dyddiad	16 Tachwedd 2021
Amser	14.00-16.00
Lleoliad	Microsoft Teams
Yn Bresennol	Y Cyngorydd Brian Jones (BJ), y Cyngorydd Graham Timms (GT), y Cyngorydd Tony Thomas (TT), y Cyngorydd Bobby Feeley (BF), y Cyngorydd Gwyneth Kensler (GK), y Cyngorydd Arwel Roberts (AR), y Cyngorydd Barry Mellor (BM), y Cyngorydd Joe Welch (JW), y Cyngorydd Bobby Feeley (BF)
Ymddiheuriadau	Nicola Kneale
Hefyd yn Bresennol	Swyddogion cefnogi: Alan Smith (AS), Andrew Cutts (AC), Helen Vaughan-Evans (HVE), Andy Clark (ACL), Howard Sutcliffe (HS), Jane Hodgson (JH), Tom Booty (TB), Liz Wilcox-Jones (LWJ), Heidi Barton-Price (HBP), Tim Towers (TT), Tony Ward (TW), Tom Johnstone (TJ), Huw Rees (HR) Cynghorwyr yn Arsylwi: Y Cyngorydd Ellie Chard (EC)

1. Croeso ac ymddiheuriadau

Croesawodd y Cadeirydd, GT, pawb i'r cyfarfod a nodwyd yr ymddiheuriadau.

Croeso cynnes i Tom Johnstone fel Swyddog Strategol Newid Hinsawdd, Seilwaith Gwyrdd a Dalgylch AHNE.

GWEITHGOR NEWID HINSAWDD AC ARGYFWNG ECOLEGOL

Hwyl fawr a dymuniadau gorau i Tom Booty yn ei benodiad llwyddiannus yng Nghyngor y Wirral ac i Helen Vaughan-Evans sy'n mynd ar gyfnod mamolaeth (diwrnod gwaith olaf Helen yw 13 Ionawr 2022, a bydd yn dychwelyd ym mis Ionawr 2023).

Bydd Andrew Cutts yn cael ei secondio fel Rheolwr Rhaglen Newid Hinsawdd yn lle Helen ym mis Ionawr 2022 tra bod Helen ar gyfnod mamolaeth.

Diolchodd y grŵp i Tom a Helen am eu gwaith ar y rhaglen hon.

2. Cofnodion a'r camau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gywir.

Adolygwyd y camau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 28 Gorffennaf 2021 a chafwyd diweddariad gan HVE. Gweler y tabl isod sy'n rhoi crynodeb o'r hyn sydd wedi'i wneud.

CAM GWEITHREDU	Y WYBODAETH DDIWEDDARAF
GT – Fel Cadeirydd y gweithgor, i awgrymu i Gadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu bod cyfle i adroddiad ysgrifenedig gan y tîm Arlwy Ysgolion i fynd i Bwyllgor Craffu ym mis Medi/Hydref 2021 ynglŷn â'r cynnydd sydd wedi'i wneud ar faterion carbon isel a lleihau'r defnydd o blastig untro.	WEDI'I GWBLHAU <ul style="list-style-type: none">• Adroddiad yn mynd i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ar 27 Ionawr• Swyddogion o'r tîm Arlwy Ysgolion i baratoi papur
HVE – i ddsbarthu'r cylch gorchwyl wedi'i ddiweddarau a'i gymeradwyo i aelodau'r Grŵp a'r gwasanaethau democrataidd.	WEDI'I GWBLHAU
HVE – i gynnwys yr argymhelliad i barhau â'r Gweithgor Newid Hinsawdd ac Argyfwng Ecolegol i mewn i gyfnod y Cyngor newydd (2022-2027) yn y papur i'r	AR Y GWEILL <ul style="list-style-type: none">• Papur yn mynd gerbron y Cyngor Llawn ar 22 Chwefror 2022

<p>Cyngor Llawn (ar y cynllun gwaith i'r dyfodol ar gyfer 22 Chwefror 2022)</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd fersiwn ddrafft o'r papur ar raglen cyfarfod nesaf y gweithgor a gaiff ei gynnal ar 1 Chwefror 2022, er mwyn i'r gweithgor ei adolygu a'i olygu.
<p>HVE – i sôn am gyflawni'r achrediad, a gwneud y diwygiadau ychwanegol a nodwyd yn y llythyr i'r Gweinidogion.</p>	<p>WEDI'I GWBLHAU</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyflawnwyd gwobr efydd ar 16 Medi • Mae'r dystysgrif yn para 2021-2024
<p>BJ – i drafod gyda'r Arweinydd ynglŷn ag anfon llythyr at y Gweinidogion.</p>	<p>WEDI'I GWBLHAU</p> <ul style="list-style-type: none"> • Anfonwyd llythyr gan y Cynghorydd Brian Jones at Julie James AS a Lee Waters AS ar 10 Medi • Cafwyd ateb gan Julie James AS ar 13 Hydref
<p>HVE – i gynnwys trafodaeth ar raglen cyfarfod nesaf y gweithgor ynglŷn â'r defnydd o blaladdwyr i gynnal a chadw tiroedd, a pholisi presennol y Cyngor.</p>	<p>WEDI'I GWBLHAU</p> <p>Ar y rhaglen</p>
<p>HVE – i adrodd yn ôl i TW ynglŷn ag adborth y grŵp, a bod y grŵp yn hapus i TW sôn am gefnogaeth y gweithgor yn y rhan ar ymgynghori yn nhempeld yr adroddiad.</p>	<p>WEDI'I GWBLHAU</p>
<p>TW – i ddrafftio papur Craffu yn unol â hynny.</p>	<p>WEDI'I GWBLHAU</p> <p>Cynhaliwyd Pwyllgor Craffu Cymunedau ar 9 Medi.</p> <p>Penderfynodd y Pwyllgor Craffu ar y canlynol:</p> <p><i>(a) cadarnhau ei gefnogaeth i'r egwyddor y gall ardaloedd preswyl/trefol fod yn lleoliadau addas ar gyfer dolydd blodau gwyllt;</i></p>

	<p><i>(b) ei gwneud yn ofynnol i swyddogion wella ymgysylltiad a chyhoedduswydd gydag aelodau lleol, cynghorau dinas, tref a chymuned, a'r cymunedau eu hunain mewn perthynas â'r prosiect yn eu hardaloedd, a'i ddatblygiad wrth symud ymlaen;</i></p> <p><i>(c) rheoli rhywogaethau o 'chwyn sy'n niweidiol a gwenwynig', fel Llysiau'r Gingroen, Dail Tafol ac Ysgall yn fwy effeithiol o fewn safleoedd Dolydd Blodau Gwyllt;</i></p> <p><i>(d) gwneud cais bod swyddogion yn cysylltu a gweithio â chydweithwyr o Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy ac Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru (NMWTRA), gyda'r nod o sicrhau eu bod nhw i gyd yn rheoli eu lleiniau glas ac ardaloedd dolydd blodau gwyllt mewn modd tebyg, gyda'r nod o ategu at ddulliau ei gilydd, a chefnogi bioamrywiaeth ac iechyd ecolegol yr ardal, wrth ddiogelu iechyd a diogelwch defnyddwyr y ffyrdd;</i></p> <p><i>(e) gwneud cais bod adroddiad, yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â'r cynnydd sydd wedi ei wneud wrth gyflwyno a datblygu'r Prosiect Dolydd Blodau Gwyllt, yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor mewn 12 mis, a</i></p> <p><i>(f) cadarnhau ei fod, fel rhan o'i ystyriaeth, wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les, sydd i'w weld yn Atodiad 1 yr adroddiad.</i></p> <p>Cytunwyd yn unfrydol ar yr argymhellion uchod i gyd, oni bai am argymhelliad (c) a gafodd ei gymeradwyo gan benderfyniad mwyafrifol.</p>
<p>HVE – i ymchwilio i'r posibilrwydd o ddarparu ystadegau rhagamcan ar gyfer Dangosyddion Perfformiad Allweddol y Rhaglen ym mis Chwefror 2022.</p>	<p>WEDI'I GWBLHAU</p> <p>Ddim am fod yn bosibl.</p>

GWEITHGOR NEWID HINSAWDD AC ARGYFWNG ECOLEGOL

LWJ – i asesu'r arwynebedd y mae canopi coed ar dir ysgolion yn Sir Dinbych yn ei orchuddio, a chyfleoedd i'w gynyddu i o leiaf 20%.	AR Y GWEILL Bydd y gwaith yn parhau yn ystod blwyddyn galendr 2022 er mwyn hysbysu cynlluniau posib ar gyfer tymor plannu 2022.
LWJ – i gynnwys adborth a syniadau yn y broses o gynllunio digwyddiadau cyhoeddus yn ystod hydref/gaeaf 2021.	WEDI'I GWBLHAU Crynodeb o'r digwyddiadau/gweithgareddau a gynhaliwyd i'w cynnwys yn y materion sy'n codi.
HVE – i newid cyfarfod mis Mawrth i fis Chwefror.	WEDI'I GWBLHAU Y cyfarfod nesaf wedi'i drefnu ar gyfer 1 Chwefror 2022.

Roedd y drafodaeth o'r camau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf yn cynnwys:

- Llythyr Julie James (AS) – cyflymder yr ymateb wedi creu argraff.
- BJ – Mae Lee Waters (AS) yn gysylltiedig â theithio llesol, ac eisoes wedi ymweld â Sir Ddinbych, ac efallai y bydd yn ymweld eto. Y Cynghorydd Brian Jones i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf i'r swyddogion ynglŷn â'r posibilrwydd o ymweliad gan Lee Waters

CAMAU GWEITHREDU:

- BJ – i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf i'r swyddogion ynglŷn â'r posibilrwydd o ymweliad gan Lee Waters

3. Materion sy'n codi

Dyma'r Materion sy'n codi a drafodwyd.

Cofnod o Gyllideb y Rhaglen Newid Hinsawdd ac Ecolegol yng nghyllideb 2022/23 y
Cyngor

Arweiniodd Helen y grŵp drwy'r gyllideb arfaethedig ar gyfer 2022/23, a oedd yn cynnwys:

GWEITHGOR NEWID HINSAWDD AC ARGYFWNG ECOLEGOL

- Mae Fersiwn Ddrafft o Gyllideb 2022/23 y Cyngor ar raglen mis Ionawr y Cabinet ar gyfer ei chymeradwyo.
- Mae Fersiwn Ddrafft o Gyllideb 2022/23 y Cyngor ar raglen mis Chwefror y Cyngor i'w chymeradwyo.
- Os yw'r Cabinet a'r Cyngor yn cymeradwyo Fersiwn Ddrafft o Gyllideb y Cyngor ym mis Ionawr/Chwefror 2022, bydd £440,000 ar gael ar gyfer y Rhaglen:
 - £233,000 ar gyfer staff
 - 3 swydd barhaol, er mwyn cyflawni'r weithgaredd lleihau carbon, sy'n ofynnol o fewn y ffrwd gwaith Adeiladu (cyfwerth â 3 swydd llawn amser).
 - Cyfraniad tuag at gostau 3 swydd barhaol, er mwyn cyflawni'r gweithgaredd lleihau carbon, sy'n ofynnol o fewn y ffrwd gwaith Gwastraff (cyfwerth â 3 swydd llawn amser).
 - 1 swydd barhaol a chyfraniad at 1 swydd barhaol er mwyn cyflawni gofynion cyfathrebu ac ymgysylltu mewnol ac allanol y ffrwd gwaith Ymddygiad (cyfwerth â 1.5 swydd llawn amser).
 - Refeniw £207,000 i dalu am fenthycia darbodus er mwyn cyflawni prosiectau ar draws y ffrydiau gwaith adeiladau, fflyd, defnydd o dir a gwastraff.
 - Trosoli buddsoddiad posib o £3.2miliwn.

Gweithgareddau COP26 – Adrodd yn ôl

Arweiniodd Liz y grŵp drwy'r adroddiad ynglŷn â COP26.

Yn ystod y pythefnos, cynhaliwyd y gweithgareddau canlynol:

- Dwy weminar gyhoeddus – gyda bron i 25 wedi cofrestru i fynychu

GWEITHGOR NEWID HINSAWDD AC ARGYFWNG ECOLEGOL

- Dod yn Gymuned Di-garbon gyda siaradwyr o: Canolfan y Dechnoleg Amgen, Cyfeillion y Ddaear ac Eglwysi Eco Llanelwy.
- Brechwast Busnes gyda siaradwyr o: Gyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy, Ystâd Rhug, Sw Môr Môn, Celtic Financial Planning Ltd.
- Ymgyrch cyfryngau cymdeithasol
 - Rhannwyd gwybodaeth a hyrwyddwyd gwaith newid hinsawdd ac ecolegol y Cyngor pob dydd, yn seiliedig ar themâu COP26.
 - Roedd y negeseuon yn cynnwys gwybodaeth ynglŷn â:
 - Chynllun Amddiffyn Arfordir Dwyrain y Rhyl
 - Prosiect Passivhaus Dinbych
 - Peilot ein fflyd o geir trydan a thacsis Eco
 - Prosiect Gwyrdd Ysgol Dinas Brân
 - Prosiect bioamrywiaeth dolydd blodau gwyllt
 - Fideo COP26 Ysgol Bro Cinmeirch
 - Roedd ymgysylltiad yn gryf, gyda dros 2,000 ymateb i bob neges, a chyrrhaeddiad o dros 65,000 o bobl ar draws Twitter a Facebook gyda'i gilydd.
- Adnodd COP26 Ysgolion
 - Dosbarthwyd adnodd pdf dwyieithog i ysgolion, gyda gwybodaeth a syniadau am weithgareddau addysgiadol i'r ysgolion eu defnyddio. Anogwyd ysgolion i rannu eu lluniau a chanlyniadau o ddefnyddio'r adnodd drwy'r cyfryngau cymdeithasol a'u hanfon i'r e-bost newid hinsawdd (climatechange@denbighshire.gov.uk).
 - Diolch yn arbennig i'r Cyngorydd Graham Timms am ei fewnbwn gwerthfawr a'i help wrth ei gynhyrchu.

Datblygu Cynllun Corfforaethol 2022-2027

Rhoddodd Alan ddiweddariad ar lafar i'r grŵp.

- Asesiad lles - mae gan dîm Nicola ddiddordeb mawr yn yr amgylchedd naturiol a'r hinsawdd.

- Caiff gweithdy'r Cabinet a'r Tîm Arwain Strategol ei gynnal ddiwedd mis Tachwedd, i lunio cynnig drafft o sut y gallai'r Cynllun Corfforaethol edrych. Yna bydd y fersiwn ddrafft argymelledig yn mynd gerbron y Cyngor newydd i'w gymeradwyo ym mis Mai. Cafwyd sicrwydd y bydd y rhaglen newid hinsawdd ac ecolegol yn rhan fawr o'r cynllun newydd.
- Cododd GT yr angen i newid hinsawdd fod yn rhan o'r Cyngor yn ei gyfanrwydd, ac nid fel adran ar wahân.

Trafododd y grŵp y tensiwn rhwng hinsawdd/ecoleg o fewn gwaith y Cyngor e.e. datblygiadau cynllunio.

- Tynnodd BJ/ GT/ EC sylw at yr angen am bolisiau a safonau mwy clir a chadarn ynglŷn â newid hinsawdd ac ecolegol yn y gyfraith gynllunio.

CAMAU GWEITHREDU:

- HVE - i drafod a gwneud cais am arweiniad gan Paul Mead ar sut i gefnogi Cyngorwyr ynglŷn â phenderfyniadau cynllunio sydd i weld yn gwrthdaro â'r agenda newid hinsawdd ac ecolegol.

4. Argymhellion o'r Adroddiad Archwilio "Cyflawni Uchelgeisiau Amgylcheddol" gan Archwilio Cymru, a fersiwn ddrafft o Ymateb Rheolwyr y Cyngor

Arweiniodd Helen y grŵp drwy ganfyddiadau adroddiad Archwilio Cymru.

Canfyddiadau Allweddol

- "Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd rhagorol o ran ymgorffori ei uchelgeisiau amgylcheddol"
- "Mae'r Cyngor wedi symud yn sydyn er mwyn gwneud ei uchelgeisiau amgylcheddol yn rhan annatod o'i fframweithiau cynllunio strategol, ac wedi clustnodi adnoddau sylweddol, ond ni wyddwn gost lawn yr uchelgais ar hyn o bryd"

- “Mae'r Cyngor wedi cyfathrebu'n dda gyda dinasyddion, gan ymdrechu i hysbysu, dylanwadu a newid ymddygiad, a byddai mwy o waith mapio budd-ddeiliad cynhwysfawr yn cryfhau ymgysylltu ymhellach”
- “Mae'r Cyngor wedi gweithio'n galed i gyfathrebu a hyfforddi cynghorwyr a staff, ac er bod dealltwriaeth yn datblygu, mae angen rhagor o fanylder ar yr hyn y mae 'ecolegol gadarnhaol' yn ei olygu i'r Cyngor, a sut mae'r uchelgeisiau yn effeithio ar waith bob dydd pawb”
- “Mae'r Cyngor wedi rhoi mesurau cychwynnol ar waith gan ddefnyddio fframwaith perfformiad sydd wedi'i sefydlu. Bydd adrodd yn ôl dros y flwyddyn nesaf yn helpu i wneud uchelgeisiau amgylcheddol yn ran annatod o'r Cyngor, ac i esblygu'r mesurau”

Mae angen rhagor o ddealltwriaeth am y gost lawn, o'r gwaith mapio, ar gyfer cydraddoldeb y ddwy nod (ystyriwyd bod y nod eco gadarnhaol yn nod eilaidd), a diddordeb mewn gweld sut mae'r gwaith o reoli perfformiad yn mynd rhagddo.

Cafwyd trafodaethau ynglŷn ag ymgysylltu ag ysgolion, a sut y gallwn ei wella yn sgil y canfyddiadau yn yr adroddiad.

- Awgrymodd BM gynnwys y Llywodraethwyr. Awgrymodd hefyd gynnwys y Rheolwyr Busnes/Pennaeth.
- Dywedodd AS pa mor bwysig yw'r maes hwn, a'r angen i fod yn ymwybodol o'r agenda carbon ac ecolegol yn y meysydd hyn.
- Dywedodd GT gall y gost fod yn fwy yn y tymor byr, ond yn yr hirdymor bydd y manteision yn fwy ar gyfer newid hinsawdd ac arbed costau.
- Dywedodd TJ wrth y grŵp mai Ysgol Cilcain yn Sir y Fflint yw'r ysgol ddi-garbon net gyntaf, a'i bod yn ddefnyddiol fel astudiaeth achos.

CAMAU GWEITHREDU:

- AS – i drafod gyda Geraint am y cyfle i ymgysylltu â Llywodraethwyr ynglŷn â gwaith a thargedau Newid Hinsawdd ac Ecolegol y Cyngor.

5. Cyflwyniad ac Adroddiad Cynnydd ar Brosiect Clefyd Coed Ynn y Cyngor

Cyflwynodd Huw y prosiect i'r grŵp, gan roi manylion am sut y dechreuwyd cynllun Clefyd Coed Ynn. Mae gan Sir Ddinbych boblogaeth uchel o Goed Ynn yn y sir, a bydd y clefyd yn cael effaith sylweddol ar dirwedd y sir.

Dangosodd Andrew gyflwyniad PowerPoint i'r grŵp, gan gynnwys y canfyddiad cynnar bod 75% o Goed Ynn yn y Sir yn iach ar hyn o bryd ac felly ni fyddant yn cael eu torri i lawr.

Mae angen crynhoi cyflwyniad Andrew gan gynnwys: Cefndir, cylch bywyd, plâu a chlefydau, Coed Ynn a bioamrywiaeth, arolwg ac archwilio a chynllun gweithredu.

Roedd cyfle i ofyn cwestiynau.

Cwestiynau

Rhoddodd TT ddiweddariad fel Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau. Gofynnodd hefyd a oeddem yn gobeithio tyfu coed gwydn? Dywedodd Andrew fod Coed Ynn gwydn yn cael eu tyfu, ond bydd yn cymryd amser.

Gofynnodd AR am gopi o'r cyflwyniad ac iddo gael ei gyfieithu. Soniodd am y gwaith plannu coed yng Ngwarchodfa Natur Rhuddlan ond mae problemau â chlefyd llwyfen. Gofynnwyd pa ardaloedd rydym yn edrych arnynt, nad ydynt yn ein rheolaeth.

Cadarnhaodd Andrew fod materion yn ymwneud â chlefyd llwyfen yn cael eu hystyried yn Rhuddlan a bod tir sirol yn cael ei fonitro ble bo'n bosibl, ond oherwydd maint y sir mae'n anodd bod yn ymwybodol o'r holl gyfleoedd a phroblemau posib o ran tir.

Tim Towers - mae'r adran briffyrdd yn rhan o'r camau cynnar o fwrw ymlaen â hyn, a sicrhau bod yr elfen fioamrywiaeth yn cael ei hystyried wrth reoli'r coed at ddibenion priffyrdd.

Trafododd GK y broblem a godwyd o ran ffwng, a gofynnodd pa rôl all y Cyngor ei chwarae ar gyfer deiliaid tir preifat. Cynigiodd Andrew fod gan Y Cyngor Coed wefan gydag adnoddau ar gyfer tiffeddianwyr preifat (<https://treecouncil.org.uk/>).

Mae TW yn gweithio tuag at lunio fersiwn ddrafft o gynllun gweithredu ar gyfer Clefyd Coed Ynn yn Sir Ddinbych a gaiff ei redeg gan yr aelod arweiniol a'r Cyngor, ac mae'n debyg, ei weithredu yn ystod tymor y Cyngor nesaf (Mai 2022 ymlaen).

Canmolodd JW y dull a gymerwyd gan Andrew ar y prosiect hwn a'r canfyddiad bod 75% o Goed Ynn yn iach iawn mewn gwirionedd, ac na fyddant yn cael eu torri i lawr. Mae'n siomedig gweld Coed Ynn iach yn cael eu torri i lawr yn ddiangen mewn ardaloedd eraill.

Dywedodd JW wrth y grŵp fod planhigfa Goed y Sir wedi dechrau casgliadau hadau, er mwyn creu rhywogaethau o darddiad lleol a fydd, gobeithio, yn dileu rhai o'r risgiau biolegol a all ddigwydd fel arall. Edrych ar roi y rhain i gymunedau ac ati, dod o hyd i wirfoddolwyr a chynnwys cyfleoedd i hyfforddi yn y blanhigfa.

Dywedodd TT fod gan yr asiantaeth briffyrdd broses eu hunain er mwyn ymdrin â chefnffyrdd, ac mae gwersi i ni eu dysgu o'u proses.

Ychwanegodd AC y bydd yn bwysig i weithio yn agos gyda'n cymdogion er mwyn sicrhau bod y prosiect yn llwyddiant.

CAMAU GWEITHREDU:

- HVE – i ddsbarthu cyflwyniad Andrew gyda'r cofnodion
- AC – i sicrhau bod y cyflwyniad yn cael ei gyfieithu i'r Gymraeg a'i anfon at bawb unwaith y bydd copi ar gael

6. Trafodaeth ynglŷn â defnyddio plaladdwr mewn gwaith cynnal a chadw tiroedd a pholisi presennol y Cyngor

Arweiniodd Tony y grŵp drwy'r cyflwyniad.

- Mae tyfiant chwyn yn hyll, a gall achosi difrod i arwyneb ffyrdd a throedffyrdd.
- Gall hefyd rwystro llif dŵr wyneb i'r system draenio priffyrdd.
- Mae Cyngor Sir Ddinbych yn defnyddio triniaeth chwistrellu chwyn ddwywaith y flwyddyn (fel arfer ym mis Mawrth/Ebrill a mis Gorffennaf/Awst) ar bob ffordd drefol yn y sir.
- Yn achlysurol, bydd cwmpas y gwaith yn cynyddu i gynnwys ardaloedd problemus eraill.

- Roeddem yn arfer trin chwyn dair gwaith y flwyddyn, ond gostyngwyd i ddwywaith ym mlwyddyn ariannol 2019/20.
- Rydym wedi ystyried amrywiaeth o ddulliau i reoli llystyfiant/chwyn er mwyn lleihau ein dibyniaeth ar ddefnyddio chwynladdwyr sy'n cynnwys glyffosad.
- Rydym wedi canfod bod y dulliau hyn yn anymarferol yn weithredol ac yn afresymol o ran cost.
- Mae'n edrych yn debyg nad oes cemegyn y mae'n bosib ei ddefnyddio yn lle glyffosad, ac mae triniaethau eraill fel ewyn poeth, asid, trydan ac offeryn llosgi chwyn yn llai effeithiol o ran cost y deunydd, a'r llafur sydd ynghlwm â'u defnyddio.

Trafodaeth o amgylch y bwrdd

Gofynnodd GK ynglŷn â'r peilot â'r Gwasanaeth Cefn Gwlad, a'r hyn y gofynnwyd amdano gan y Pwyllgor Craffu ar gyfer y prosiect dolydd gwyllt? Rhoddodd Joel ddiweddiariad ynglŷn â'r Pwyllgor Craffu – cadarnhaodd fod rheoli chwyn yn y prosiect blodau gwyllt yn gais ar wahân, ac yn ymwneud â'r ddeddf chwyn, sy'n nodi'r gofyn i reoli Llysiau'r Gingroen, Ysgall a Dail Tafol.

Ychwanegodd TW i ddweud mai cyflwyno peilot 'ecogyfeillgar' y Gwasanaeth Cefn Gwlad ar raddfa fawr yw'r pryder, wrth efelychu'r hyn sydd wedi'i wneud.

Gofynnodd HBP i nodi mai mis Mai 2021 yw dyddiad y fersiwn gyntaf – ym mha gam y mae'r polisi hwn? A ydyw wedi'i fabwysiadu yn ffurfiol? Dywedodd Tony nad oedd wedi'i fabwysiadu yn ffurfiol.

Gofynnodd HBP a oes yna unrhyw ddatrysiadau eraill, e.e. mewn ardaloedd agored diogel – cyfranogiad y gymuned? Dywedodd Tony ei fod yn ymwneud â logisteg ac adnoddau, ond bod posib edrych ar ddulliau eraill.

Dywedodd AC fod defnyddio glyffosad yn destun craffu rheolaidd. Nid yw'n bolisi newydd, ond mae gofyniad i gofnodi'r hyn yr ydym yn ei wneud ar hyn o bryd er mwyn dod o hyd i ddatrysiadau eraill. Cynhaliwyd peilot yn ddiweddar yn defnyddio ewyn poeth, ond ni chafodd ei ystyried yn ddull ymarferol.

Awgrymodd AS fod defnyddio chwynladdwyr yn debyg i'r cais cartref carbon, ble mai'n bosib mai dull costus a fydd yn ofynnol, i gyd-fynd a'n nodau eco gadarnhaol. Efallai bydd

angen gwneud pethau'n wahanol yn dibynnu ar yr ardal, er enghraifft defnyddio modd eco-gyfeillgar o reoli chwyn mewn ardaloedd o dai nad ydynt yn ardaloedd mawr, ac efallai nad oes gofyn am un dull a fyddai'n addas ar gyfer pob ardal.

Gofynnodd GT am sicrwydd bod swyddogion yn chwilio am ddewisiadau eraill, sy'n allweddol.

Dyweddodd TW bod angen gwneud darn o waith er mwyn cyfrifo beth fyddai'r gost o gyflwyno rhaglen wahanol o waith ar draws y sir i wneud hyn mewn modd mwy ecolegol gadarnhaol. Cam gweithredu i Tony edrych ar ddechrau darn o waith ar draws y sir.

Dyweddodd JW y byddai'n werthfawr cael trafodaeth â Gwasanaethau Stryd er mwyn penderfynu a yw'n ofynnol i ddefnyddio'r chwynladdwyr hyn ym mhob sefyllfa oherwydd ei bod yn debyg bod ardaloedd ble nad oes eu hangen.

CAMAU GWEITHREDU:

- TW – i wneud darn o waith er mwyn dadansoddi beth fyddai'r gost o gynnal gwaith rheoli chwyn ar draws y sir, sy'n fwy cyfeillgar i'r amgylchedd.
- JW – i drefnu cyfarfod gydag Andy a chynrychiolwyr perthnasol o'r Gwasanaethau Stryd er mwyn trafod a chanfod a yw'n ofynnol defnyddio plaladdwyr ym mhob sefyllfa y cânt eu defnyddio ynddynt ar hyn o bryd.

7. Cynllun Cymru Sero Net – agweddau allweddol ar gyfer cyrff cyhoeddus

Arweiniodd Helen y grŵp drwy'r cynllun:

- Soniwyd am Gyngor Sir Ddinbych o ran arfer gorau am ei waith yn ymgorffori'r dasg o fynd i'r afael â newid hinsawdd ac ecolegol wrth wneud penderfyniadau a hyfforddi staff, yn ogystal â'i waith ar y peilot tacs cerbydau trydan.
- Roedd 13 polisi ac 1 cynnig wedi'u rhestru, y bydd angen i Lywodraeth Leol ymateb iddynt/eu cyflawni
- 16 "gofyniad" i Lywodraeth Leol eu hystyried
- 17 ymrwymiad y mae Llywodraeth Leol wedi eu gwneud ar gyfer 2021-2025

GWEITHGOR NEWID HINSAWDD AC ARGYFWNG ECOLEGOL

Cadarnhaodd AS y byddwn yn croeswiro'r meysydd y disgwylir i ni ymgymryd â hwy ar gyfer y Cynllun Corfforaethol.

Gofynnodd GK sut yr oedd ôl troed carbon Cyngor Sir Ddinbych yn cael ei effeithio gan gynlluniau lliniaru llifogydd yn y Rhyl? Dywedodd Helen os yr ydym yn caffael y gwaith, yna mae o fewn ôl troed allyriadau carbon ein cadwyn gyflenwi.

8. Cynllun Gwaith i'r Dyfodol ac Unrhyw fater arall

Arweiniodd HVE y grŵp drwy'r cynllun gwaith i'r dyfodol ar gyfer 2022.

Dyddiad y Cyfarfod	Eitemau Posib ar y Rhaglen
1 Chwefror 2022, 14.00 – 16.00	<ul style="list-style-type: none">• Cynllun ar gyfer cyflwyno Aelodau ar ôl mis Mai 2022.• Adolygu fersiwn ddrafft o'r Cynllun Corfforaethol cyn iddo fynd gerbron y Cyngor.• Cymeradwyo fersiwn ddrafft o'r adroddiad i'r Cyngor Sir ynglŷn â'r Rhaglen Newid Hinsawdd ac Ecolegol a Chyflawni'r Strategaeth ym Mlwyddyn 1 i gynnwys:<ul style="list-style-type: none">○ Y cynnydd a gyflawnwyd hyd yn hyn (prosiectau a gweithgareddau)○ Awgrymu parhau'r Gweithgor Newid Hinsawdd ac Argyfwng Ecolegol i mewn i dymor y Cyngor newydd (2022-2027)○ Argymhellion ar gyfer y Cynllun Corfforaethol newydd.○ Amlinellu'r cynllun arfaethedig ar gyfer cyflwyno Aelodau newydd ar ôl yr etholiad

Nid oes unrhyw gyfarfodydd pellach wedi'u trefnu.

Yn dibynnu ar ganlyniad y papur argymhellion a fydd yn mynd gerbron y Cyngor ym mis Chwefror, bydd cyfarfodydd pellach yn cael eu trefnu yn dilyn canlyniad yr Etholiad Lleol,

ac enwebiadau gan bleidiau gwleidyddol i'r Gwasanaethau Democrataidd ar gyfer cynrychiolwyr i'r grŵp hwn (2 gynrychiolydd o bob grŵp gwleidyddol)

Gofynnodd BJ ble y mae'r swyddogion yn gweld yr agenda yn y Cynllun Corfforaethol newydd? Dywedodd am yr angen i gadw cofnod o ble yr ydym yn gweld yr agenda yn y Cyngor nesaf.

Dywedodd AS ei bod yn agenda hanfodol, ac y byddai'n synnu yn fawr os na fydd yn rhan fawr o'r Cynllun Corfforaethol newydd. Nid yw'r fformat wedi'i benderfynu hyd yn hyn, ond mae'n debygol iawn y bydd yn rhan fawr, ond mae'n dibynnu ar yr hyn y mae'r Cynghorwyr newydd yn ei benderfynu.

UFA

Dymunodd bawb Nadolig Llawen i'w gilydd, a datgan eu diolch i Tom a Helen unwaith eto am eu gwaith.